

Mewnblaniad mewnwydrog acetonid fflwocinolon ar gyfer trin wfeitis rheolaidd nad yw'n heintus

31 Gorffennaf 2019

Mae mewnblaniad acetonid fflwocinolon (lluvien) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer atal claf sydd ag wfeitis rheolaidd nad yw'n heintus sy'n effeithio ar ran ôl y llygad rhag ailwaelu.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrandon ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [gwefan y GIG](#) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Cymdeithas Wfeitis Birdshot](#)
- [Olivia's vision, contact@oliviasvision.org](#)
- [Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion \(RNIB\), 0303 123 9999](#)
- [Fight for Sight, 0207 264 3900](#)

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp [Gwarchod Iechyd](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3486-7